| | |
|---|---|
| Pwyllgor | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| Teitl yr Adroddiad | Grantiau COVID i fyd addysg i gynorthwyo disgyblion |
| Dyddiad y Cyfarfod | 10 Mehefin 2021 |
| Awdur yr Adroddiad | Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg |
| Swyddog Perthnasol | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| Aelod Cabinet Perthnasol | Cynghorydd Cemlyn Rees Williams |

## 1. Cefndir

1.1 Yn sgil y pandemig COVID, mae **Grant Rhaglen Dysgu Carlam** wedi ei dderbyn gan ysgolion i gynorthwyo disgyblion.

1.2 Er bod ystod o grantiau eraill wedi bod ar gael i gefnogi ysgolion oherwydd gofynion COVID, dim ond y **Grant Rhaglen Dysgu Carlam** sydd yn uniongyrchol ar gyfer cynorthwyo disgyblion. Mae'r grantiau eraill wedi bod i bwrpasau gwahanol, er enghraifft, costau llanw yn lle staff oedd i ffwrdd oherwydd gofynion COVID, adennill costau addasiadau mewn ysgolion oherwydd gofynion COVID, colled incwm gwasanaeth arlwyaeth ysgolion uwchradd, ayyb.

## 2. Amodau'r Grant

Gweler isod grynodeb o amodau'r grant gan Lywodraeth Cymru:

<u>**Rhaglen Dysgu Carlam**</u>

2.1 *Disgwylir i'r cyllid helpu ysgolion i fodloni gofynion* ***Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau: Rhaglen Dysgu Carlam*** *a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg ar 9 Gorffennaf 2020.*

2.2 *Yn ystod yr argyfwng, daeth i'r amlwg nad yw nifer o ddysgwyr wedi symud ymlaen gymaint ag y gellid ei ddisgwyl o ran eu cynnydd wrth ddysgu, ac mae rhai dysgwyr wedi'u heffeithio'n fwy difrifol nag eraill. Mae'r cyllid hwn yn galluogi buddsoddiad mewn ysgolion er mwyn caniatáu iddynt recriwtio a defnyddio mwy o bobl i helpu dysgwyr wrth roi sylw i'w hanghenion yn dilyn yr argyfwng COVID-19 cychwynnol a'r cyfnod pan oedd ysgolion ar gau.*

2.3 *Prif ddiben y cyllid felly yw galluogi buddsoddiad mewn ysgolion i ganiatáu iddynt recriwtio a defnyddio mwy o bobl i helpu dysgwyr wrth roi sylw i'w hanghenion yn dilyn yr argyfwng COVID-19 cychwynnol a'r cyfnod pan oedd ysgolion ar gau.*

2.4 *Mae pob disgybl yn gymwys i dderbyn cymorth ychwanegol wrth ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, er y bydd cwmpas y cymorth angenrheidiol yn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol. Gan fod adnoddau yn gyfyngedig, byddwn yn blaenoriaethu fel a ganlyn wrth gynllunio dyraniad yr adnoddau:*

***Carfannau â blaenoriaeth i gael cymorth:***

2.5 *Mae'r cyllid i'w dargedu at garfannau penodol sydd wedi'u nodi fel y rhai mwyaf agored i niwed, fel a ganlyn:*

1. *Disgyblion sy'n paratoi ar gyfer arholiadau yn y flwyddyn academaidd nesaf (sef disgyblion blynyddoedd 11, 12 ac 13).*
2. *Disgyblion agored i niwed a difreintiedig, yn unol â diffiniad amrywiol ddulliau gweithredu.*
3. *Blwyddyn 7, yn sgil yr amharu wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.*

2.6 *Mae'r carfannau penodol yma yn awgrym o'r hyn y bydd penaethiaid yn ei ystyried wrth ddosbarthu cymorth. Er bod y fformiwla cyllido yn seiliedig ar garfannau penodol o ddysgwyr, disgwylir i'r cyllid gael ei ddefnyddio i sicrhau bod unrhyw ddysgwyr sydd angen cymorth yn cael cyfle i dderbyn y cymorth hwnnw lle bynnag y bo'n bosibl. Felly nid yw wedi'u gadw yn ôl at ddefnydd y tri grŵp â blaenoriaeth a restrir ym mhwyntiau 1-3 yn unig, ac fe ddylid ei ddefnyddio i ganiatáu mynediad at gymorth lle bo angen i blant sydd wedi dioddef effaith amrywiol agweddau o'r pandemig.*

2.7 *Gan y bydd unigolion nad ydynt wedi'u rhestru yn y 3 grŵp â blaenoriaeth hefyd angen cymorth, mae'n egwyddor bwysig caniatáu i Benaethiaid gael ymreolaeth wrth benderfynu pa grwpiau neu unigolion y maent am eu helpu fel rhan o'u cynlluniau ysgol unigol.*

***Cymorth i'w Ddarparu***

2.8 *Diwygio'r cwricwlwm yw ein prif flaenoriaeth o hyd ar gyfer addysg yng Nghymru. Yn unol â hynny, bydd y Rhaglen hon yn canolbwyntio ar gymorth ar gyfer y canlynol:*

- *Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol o fewn cwricwlwm eang a chytbwys – ar gyfer y blynyddoedd arholiadau bydd hyn yn cynnwys sgiliau darllen ac ysgrifennu uwch, sgiliau mathemateg lefel uwch lle bo'n berthnasol, a chymhwysedd digidol ar lefel briodol ac fel y bo'n berthnasol i ddysgwyr sy'n symud ymlaen gyda'u cymwysterau.*
- *Datblygu sgiliau dysgu annibynnol, i alluogi ac ysgogi dysgwyr ym mhob grŵp i symud ymlaen yn gynt drwy weithio'n fwy effeithiol wrth eu hunain ac allan o'r ysgol.*

- *Cefnogi ac ennyn diddordeb drwy goetsio – mewn cydnabyddiaeth y bydd y dysgwyr sydd wedi ymddieithrio fwyaf angen hyfforddiant a chymorth emosiynol yn ogystal â chymorth ar gyfer paratoi ar gyfer arholiadau a sgiliau.*

***Beth y dylid defnyddio'r cyllid i'w ddarparu:***

*2.9 Mae'r grant hwn yn rhoi adnoddau ariannol penodol i greu capasiti newydd yn y system addysg.*


- *Gall ysgolion benodi Athrawon Cymwys gan gynnwys Athrawon Newydd Gymhwyso, Cynorthwywyr Addysgu a rolau cynorthwyol eraill i'r ysgol (er enghraifft rolau sydd wedi'u llunio i ddarparu cymorth coetsio), yn unol â dealltwriaeth yr ysgol o anghenion y dysgwyr.*
- *Gall y capasiti newydd fod yn llawn amser neu ran amser, neu gynnydd mewn oriau ar gyfer contract presennol lle mae'r sgiliau hynny yn angenrheidiol.*
- *Gall cydweithwyr newydd weithio ar draws mwy nag un ysgol lle mae clystyrau o ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth gydweithredol.*
- *Gall penaethiaid benodi athrawon newydd i'r ysgol er mwyn rhyddhau athrawon presennol sy'n adnabod eu disgyblion orau i weithio gyda nhw i gyflymu eu cynnydd (gan lenwi eu swyddi arferol dros dro).*
- *Bydd angen i sgiliau cydweithwyr newydd adlewyrchu anghenion grwpiau a dysgwyr.*
- *Bydd y model cyflawni y bydd cydweithwyr newydd yn gweithio oddi mewn iddo yn benodol ar gyfer anghenion yr ysgol a'i dysgwyr.*

## 3. Faint o arian mae ysgolion Gwynedd wedi'i dderbyn?

3.1 Mae dyraniad y Grant Rhaglen Dysgu Carlam wedi cyrraedd ysgolion mewn dau 'tranche', Medi 2020 a Mawrth 2021, gyda'r cyfanswm cenedlaethol sydd wedi ei ddyrannu yn £29 miliwn a £33 miliwn. Mae cyfanswm yr arian sydd wedi ei neilltuo i ysgolion Gwynedd oddeutu £2,220,440. Mae'r dyraniadau fesul sector ysgol i'w gweld yn **Atodiad 1**

## 4. Cynllunio Grantiau ac arfarnu effaith


4.1 Mae'n ddisgwyliedig bod gan bob ysgol gynllun gwariant ar gyfer y grantiau. Er mwyn cefnogi ysgolion i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwariant y grantiau , mae GwE wedi llunio Dangosfwrdd Cynllunio Grantiau Rhanbarthol .




4.2 System yw hon sydd yn helpu ysgolion i gynllunio y defnydd o grantiau gan gynnwys y Grant Dysgu Carlam. Mae'r Dangosfwrdd yn rhoi cyfansymiau o'r grantiau a ddyfernir i'r ysgolion yn y flwyddyn ariannol a cheir cysylltiadau at ddogfennau canllaw perthnasol a thelerau ac amodau'r grantiau. Mae adran arfarnu ar y Dangosfwrdd i'r Pennaeth, Cynrychiolydd o'r Corff Llywodraethol a'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant i gymeradwyo'r cynlluniau. Yn ogystal, mae modd crynhoi'r wybodaeth sydd yn y Dangosfwrdd fel y gellir ei rannu â llywodraethwyr a chymuned ehangach yr ysgol.

4.3 Ar gyfer 2020/21 roedd defnyddio'r Dangosfwrdd yn ddewisol i ysgolion. Mae bron pob un yn y cynradd wedi dechrau ei ddefnyddio, gyda mwyafrif yr ysgolion uwchradd yn defnyddio'r Dangosfwrdd a'r gweddill cynllunio yn defnyddio'u templedi eu hunain.

4.4 Dyma un enghraifft o sut mae cynllunio ar y Dangosfwrdd yn edrych i ysgol unigol:




Mae'r colofnau a'r dewisiadau yn unol â chanllawiau'r grant gan adael i ysgol ddewis o'u plith a chynnig naratif eu hunain am y gwariant penodol.

4.5 Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn gweithio efo ysgolion i arfarnu effaith y grantiau. **Unwaith y bydd ysgolion wedi cael y cyfle i ddefnyddio'r grant yn llawn byddant mewn sefyllfa aeddfetach i fesur ei effaith.**

## 5. Cynlluniau Ysgolion

### Cynlluniau Dysgu Carlam Ysgolion Cynradd

5.1 Mae cynlluniau pob ysgol ar gyfer recriwtio staff er mwyn cynnal rhaglenni ymyrraeth i adfer a chodi safonau.

5.2 Yn ymarferol mae'r ysgolion wedi defnyddio'r cyllid ar gyfer un, neu gymysgedd o'r dulliau dros dro yma:

- Cynyddu oriau cymorthyddion rhan amser sydd ar staff yr ysgol yn barod
- Cynyddu oriau athrawon rhan amser sydd yn yr ysgol yn barod
- Recriwtio cymorthyddion newydd yn rhan neu lawn amser
- Recriwtio athrawon (llanw) yn rhan neu lawn amser

5.3 Eto yn gyffredinol, roedd yn anodd i ychydig o ysgolion ddarganfod cymorthyddion newydd ac roedd amharodrwydd dealladwy a chyfyngiadau swigod yn ei gwneud yn anodd i ychydig o ysgolion fod yn tynnu gweithwyr newydd i ysgol. Mae prif wariant yr arian felly wedi bod ar gynyddu oriau staff mewnol ysgolion.

5.4 Defnyddiwyd staff neu'r oriau ychwanegol yma i'r cymorthyddion neu'r athrawon unai fod yn gweithio gyda grwpiau penodol o ddisgyblion neu i fod yn rhyddhau aelodau eraill o'r staff i wneud hyn.

5.5 Er mwyn adnabod disgyblion i fod yn derbyn ymyrraeth drwy'r rhaglen yma mae pob ysgol yn adnabod eu disgyblion bregus a'r rhai ac anghenion drwy brosesau arferol. Fe wnaeth bron pob ysgol hefyd asesu eu disgyblion yn gynnar ym Medi 2020 gan adnabod disgyblion ble 'roedd eu sgiliau iaith a mathemateg wedi llithro. Lluniwyd grwpiau ymyrraeth yn bron pob ysgol i roi cymorth adfer i'r disgyblion yma.

5.6 Mae'r cynlluniau yn adnabod nifer o ymyraethau gwahanol. Gwnaed ddefnydd da iawn gan lawer o ysgolion o adnoddau Dysgu Carlam GwE a'r gwaith ymchwil i'r ymyraethau mwyaf effeithiol.

### Cynlluniau Dysgu Carlam Ysgolion Uwchradd

5.7 Yn gyffredinol, mae'r ysgolion wedi blaenoriaethu'r arian ar gyfer carfanau o ddisgyblion penodol megis disgyblion sydd yn paratoi am arholiadau (bl.11,12,13), plant bregus a difreintiedig, blwyddyn 7 ac unrhyw grwpiau penodol neu unigolion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r meysydd cymorth sydd wedi eu targedu yn cynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, datblygu sgiliau dysgu annibynnol ac ymgysylltu drwy hyfforddi.

5.8 Mae creadigrwydd ar draws yr ysgolion o ran y datrysiadau sydd wedi cael eu mabwysiadu gydag un ysgol uwchradd er enghraifft wedi:

- cefnogi ac annog disgyblion bl.11 a adnabuwyd i dderbyn cefnogaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod clo drwy benodi anogwyr dysgu digidol er mwyn sicrhau parhad i'r dysgu;
- penodi athro ychwanegol i gynnal sesiynau llythrennedd a rhifedd i grwpiau penodol o ddisgyblion oedd angen cefnogaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod clo;
- penodi arweinydd ar gyfer Rhaglen Dysgu Carlam traws ysgol er mwyn cynllunio cefnogaeth bellach i'r disgyblion a chefnogi'r UDRh gyda darpariaeth ysgol gyfan.

5.9 Mae enghreifftiau eraill ble gwelwyd un ai cynyddu amser neu benodi cymorthyddion / mentoriaid o'r newydd ar gyfer sesiynau mentora a dal fyny. Y prif ffocws yma oedd i sicrhau cefnogaeth a chynhaliaeth briodol i ddisgyblion sydd wedi eu dadrithio o addysg yn ystod y cyfnod clo fel y gallent ddal i fyny gyda chyfoedion.

5.10 Mae'r defnydd o'r grant ar gyfer targedu disgyblion ôl-16 wedi bod yn debyg i'r uchod gyda'r ffocws ar gefnogi disgyblion gyda'u dysgu, a chyfran o'r arian hefyd wedi ei ddefnyddio i bwrpas safoni a chymedroli graddau asesu canolfan. Mae rhai ysgolion wedi targedu ymyrraeth benodol i ddisgyblion bl.12 a 13 sydd wedi eu hadnabod i dderbyn cefnogaeth ychwanegol drwy benodi anogwyr dysgu a chymorthyddion i'w cefnogi.

5.11 Ceir enghraifft arall ble ymatebwyd i'r pryder o golli amser dysgu trwy ychwanegu gwersi ar amserlenni bl.12 a 13 ar ôl iddynt ddychwelyd i safle'r ysgol. Gwnaed hyn drwy benodi staff ychwanegol i ddysgu yn CA3 fel bod modd rhyddhau a defnyddio staff arferol CA5 i roi mwy o wersi UG / Lefel A.